*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2017 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan gyfuniadau o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Gwnaed Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau") o dan y pwerau yn adran 166 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol penodedig o dan gyfarwyddyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r prif Reoliadau hefyd yn pennu'r swyddogaethau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sydd i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn ychwanegu'r swyddogaethau o dan adran 14A o Ddeddf 2014 at y rhestr o swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol a bennir i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) drwy hepgor rheoliad 19(1)(c) ac ychwanegu rheoliad

newydd 19(1A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun os ydynt yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i asesiad o dan adran 14 o Ddeddf 2014 (a adwaenir fel asesiad poblogaeth).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2017 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 166(2)(b) a 167(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**2**).

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 19—

(a) hepgorer paragraff (1)(c);

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Os yw unrhyw un neu ragor o'r cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad a gynhelir o dan adran 14 o'r Ddeddf, rhaid iddynt ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun."

(3) Yn Atodlen 1, Tabl 2 (swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol) ar y diwedd mewnosoder—

"Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**) (cynlluniau yn dilyn asesiadau o anghenion o dan adran 14)".

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), Atodlen 4, paragraff 34.